Chwefror 15fed 2016.

At holl Gynghorwyr Cyngor Tref Dinbych.

Annwyl Gynghorydd,

**Cyfarfod o'r Cyngor.**

A fyddwch mor garedig â nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor **Nos Lun, Chwefror 22ain 2016 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref Dinbych.** Estynnir gwahoddiad i chwi fynychu'r cyfarfod a gobeithiaf y medrwch fod yn bresennol.

Yn gywir,

Medwyn Jones
Clerc y Dref.

AGENDA

**1. Ymddiheuriadau.**

**1A Cyflwyniad gan Emily Reddy ar Fenter Sgiliau Cymunedol Cefn Gwlad.**

2. Materion Brys.

**3. Datganiad Diddordeb Personol -** Yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu rhai sy'n niweidiol i unrhyw fusnes a nodwyd i'w hystyried yn y cyfarfod yma.

**4. I dderbyn a chadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 25ain 2016 a Chofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar Chwefror 8fed 2016.**

**5. Materion yn codi:** (1) Siarteri Dinbych - ymateb oddi wrth yr Archifydd Sirol
(2) Maes Hyfryd - ymateb CSDd.

**6. Adroddiad y Maer.**

**7. Llythyrau, E-byst a Hysbysiadau**:

(1) CSDd - drafft polisi cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat & weithdrefn a pholisi presennol pwyntiau cosb.
(2) Anabledd Leonard Cheshire.
(3) Pit Pony Sanctuary.
(4) Noson cyflwyno Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd.
(5) Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.
(6) Un Llais Cymru - aelodet 2016/2017
(7) Shaun Jackson
(8) Unrhyw ohebiaeth arall a dderbynnir.

**8.** **Cynllunio:** 1**.** I ystyried unrhyw geisiadau a dderbyniwyd am ganiatâd cynllunio**.**

2. Unrhyw Faterion Cynllunio Eraill.

**9.** **I nodi Cofnodion Pwyllgorau'r Cyngor:**

(1) Amgylchedd a Chyllid - 15.2.16 (i ddilyn)
(2) Cynllunio - 16.2.16 (i ddilyn)

**10.** **I dderbyn ac ystyried unrhyw gofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor.**

**11.** **I dderbyn ac ystyried Adroddiadau:**

(1) Cyfarfod Blynyddol Gefeillio.
(2) Rheolaeth Neuadd y Dref & CLG.
(3) Unrhyw adroddiadau eraill.

**12.** **Adroddiadau Cynghorwyr Sir ar <u>Faterion oedd yn briodol i Ddinbych yn UNIG</u>**

**13.** **Cyfrifon:** 1. I ystyried talu unrhyw gyfrif a dderbyniwyd.

**14.** **Sedd Wag y Cyngor -** Canlyniad y Ward Uchaf.

**15.** **Sedd Wag y Cyngor -** Diweddariad Ward Isaf.

**16.** **I gadarnhau Enwebiad am Swydd 2016 / 2017: (1) Maer.**
**(2) Dirprwy Faer.**

**17.** **I lenwi'r gwagleoedd ar is bwyllgorau'r cyngor, gweithgorau a chynrychiolaethau ar gyrff allanol.**

**18.** **I ystyried a chymeradwyo dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol 2016 / 2017.**

**19.** **I ystyried cynnig i apwyntio Bwrdeiswyr Anrhydeddus.**

**20.** **CSDd - Protocolau Hunan Reoleiddio.**

**21.** **Swyddfa Bost Dinbych.**

**22.** **Coleg Myddelton - Ysgoloriaeth Dinbych**

**23.** **Comisiwn Elusennau - Safle Cyn Ysgol Sir Ddinbych.**